wPecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad | Dyddiad: | 29ain Awst, 2012 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | dcc_admin@denbighshire.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD, DYDD IAU, 6 MEDI 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN YMA O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN BUDDIANNAU**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fater a nodwyd i gael ei ystyried yn y cyfarfod hwn.

Prif Weithredwr / Chief Executive Mohammed Mehmet PhD BSc
Prif Swyddfeydd Y Cyngor/Council Offices, Rhuthun/Ruthin, Sir Ddinbych/Denbighshire LL15 1YN.
Ffôn/Tel (01824) 706234 Ffacs/Fax (01824) 707446

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2012 (copi'n amgaeëdig).

**5 TRAWSNEWID ADDYSG ÔL 16** (Tudalennau 13 - 24)

Derbyn adroddiad gan y Cydlynydd Addysg 14 - 19 (copi'n amgaeëdig) sy'n gofyn i'r Pwyllgor ystyried effeithiolrwydd cyflenwi addysg ôl 16 yn y Sir a'r costau cysylltiedig.

**9:45am - 10:15am**

**6 MONITRO SEFYLLFA ARIANNOL YSGOLION** (Tudalennau 25 - 28)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwiliad Mewnol (copi'n amgaeëdig) i graffu ar y cynnydd a gyflawnwyd hyd yma gan yr ysgolion hynny y nodwyd eu bod mewn anhawster ariannol wrth gyflawni eu cynlluniau adfer a lleihau eu diffygion ariannol, a'r effaith bosibl ar eu perfformiad addysgol.

**10:15am - 10:30am**

**EGWYL**

**10:30am - 10:45am**

**7 FFORMIWLA CYLLIDO YSGOLION SIR DDINBYCH** (Tudalennau 29 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Cyllid Addysg (copi'n amgaeëdig) i adolygu'r cynigion ar gyfer y fframwaith ar gyfer y Fformiwla Cyllido newydd mewn Ysgolion Prif Ffrwd ac Arbennig.

**10:45am - 11:15am**

**8 RHAGLEN WAITH CRAFFU** (Tudalennau 37 - 54)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi'n amgaeëdig) yn gofyn am adolygiad o flaenraglen waith y pwyllgor ac yn diweddaru'r aelodau ar faterion perthnasol.

**11:15am - 11:30am**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Derbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar amrywiol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

**RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra byddir yn ystyried yr eitem(au) busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym Mharagraff(au) Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

Dim eitemau

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Ian Armstrong | Geraint Lloyd-Williams |
| Meirick Davies | Peter Owen |
| Richard Davies | Allan Pennington |
| Huw Hilditch-Roberts | Arwel Roberts |
| Colin Hughes | Gareth Sandilands |

**Aelodau Cyfetholedig dros Addysg sy'n Pleidleisio (Rhifau Eitemau Agenda 5, 6 a 7 yn unig)**

| | |
|---|---|
| Ms C. Burgess | Ms. D. Houghton |
| Mrs. G. Greenland | Dr. D. Marjoram |

**COPIAU I'R:**
Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 26 Gorffennaf 2012 am 11.15 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ian Armstrong, William Cowie, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Colin Hughes (Cadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Peter Owen, Arwel Roberts a/ac Gareth Sandilands

**Arsylwyr**: : Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Kensler a David Simmons

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau), Prif Cyfrifwr (RW), Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (TW), Cydlynydd Archwilio (RE) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Meirick Davies ac Allan Pennington

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd Ian Armstrong fuddiant personol yn Natblygiad Harbwr Foryd (a gynhwyswyd yn y Cynllun Cyfalaf, eitem 9 ar y rhaglen) gan ei fod yn Gadeirydd Fforwm yr Harbwr.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Craffu Perfformiad a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2012.

**Cywirdeb** – cytunwyd y newidiadau canlynol –

- Cynnwys y Cynghorydd Meirick Davies yn yr adran aelodau'n bresennol
- Cywiro camgymeriadau teipio yn disodli 'Sandilandsands' gyda 'Sandilands' yn yr adran aelodau'n bresennol a disodli 'Y Cynghorydd C.L. Hughes gyda'r 'Cynghorydd C. Hughes' fel cynrychiolydd y pwyllgor ar y Grŵp Herio Gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol (tudalen 13, eitem rhif 10)

**Materion yn Codi** – tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at restr wedi ei diweddaru o gynrychiolwyr pwyllgor craffu ar y Grwpiau Herio Gwasanaeth a fanylwyd yn y papurau briffio (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Nodwyd y byddai'r Gwasanaeth

Adfywio (a gynrychiolwyd gan y Cynghorydd Gareth Sandilands) yn ffurfio rhan o'r Gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol yn y dyfodol. Gofynnodd y Cynghorydd Sandilands ei fod yn cael ei wahodd i gyfarfodydd Herio Gwasanaeth y Gwasanaeth Tai a Datblygu Cymunedol oherwydd ei ddiddordeb brwd yn yr agwedd adfywio. Esboniodd y Cydgysylltydd Craffu y newid yn y gynrychiolaeth craffu ar gyfer y Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith ac ailadroddodd y Cynghorydd Peter Owen ei ddiddordeb mewn materion priffyrdd. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Owen yn parhau i fynychu'r her gwasanaeth honno yn ychwanegol at fod yn gynrychiolydd craffu ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Dywedodd Rheolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol y byddai'r cylch nesaf o heriau gwasanaeth mae'n debyg yn digwydd ym mis Hydref/Tachwedd a chytunodd ddosbarthu dyddiadau'r cyfarfod cyn gynted ag y byddent ar gael.

Tynnodd y Cydgysylltydd Craffu sylw'r aelodau at y diweddariad ar benderfyniadau yn codi o'r cofnodion a oedd wedi eu cynnwys fel atodiad i adroddiad y Rhaglen Waith Craffu i'w hystyried yn nes ymlaen ar y rhaglen.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y newidiadau uchod, derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2012 fel cofnod cywir.*

**5 ADRODDIAD CYLLID 2012/13**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn manylu perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i strategaeth gyllidebol ar gyfer 2012/13. Roedd y manylion yn yr adroddiad cyllid a gyflwynwyd i'r Cabinet at 17 Gorffennaf a oedd wedi ei gynnwys fel atodiad ac yn dangos y sefyllfa gyllidebol ar ddiwedd Mehefin 2012 a'r arbedion a gyflawnwyd.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn:

- Roedd amcanestyniad cyllidebol refeniw diweddaraf yn dangos sefyllfa gytbwys ar draws yr holl wasanaethau, gan gynnwys ysgolion a chyllidebau corfforaethol
- Cyflawnwyd £1.312m (38%) o'r arbedion a gytunwyd gyda £2.131m (62%) ar y gweill ar hyn o bryd
- Tanlinellu amrywiadau allweddol o'r cyllidebau a'r targedau arbed mewn perthynas â gwasanaethau unigol
- Diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai, a
- Cadarnhau cymeradwyaeth y Cabinet o argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol, sef y cynllun i adleoli Llyfrgell Prestatyn.

Yn ystod adolygiad o wybodaeth ariannol, trafododd y pwyllgor nifer o faterion gyda'r Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, a oedd yn canolbwyntio ar y materion canlynol -

- Pryderon ynglŷn â'r goblygiadau ariannol i'r awdurdod ar ôl cwblhau'r arolwg cyflwr stoc dai a fyddai, mae'n debygg, yn adnabod rhaglen waith arwyddocaol. Dywedodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau bod y cyngor ar

y llwybr iawn i gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Unwaith y byddai canlyniad yr arolwg cyflwr yn hysbys, gellid ystyried goblygiadau ariannol buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol

- Amlygwyd y gwasanaeth gwerthfawr a oedd yn cael ei ddarparu gan y Canolfannau Integredig Plant, ynghyd â cholli cyllid Cymorth a mynegwyd pryderon ynglŷn â'r pwysau o £40k ar y gyllideb a nodwyd ar gyfer Canolfan y Dderwen y Rhyl, a ddisgrifiwyd fel un hanfodol ar gyfer ymyrraeth gynnar i deuluoedd yn yr ardal. Pwysleisiodd yr Aelodau bwysigrwydd sicrhau cyllid hirdymor y ddwy ganolfan yn y Rhyl a Dinbych. Soniwyd am bosibilrwydd bid consortia newydd gyda Home Start ar gyfer cyllid grant a gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar gynnydd yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. Hysbyswyd yr aelodau bod trafodaeth faith wedi bod ar y Canolfannau Integredig mewn cyfarfod herio gwasanaeth gyda nifer o fodelau ariannu yn cael eu hystyried

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Joan Butterfield at Brosiect Adfywio Canol y Dref y Rhyl a gofynnodd am esboniad ar fanyleb y prosiect, amserlen a chostau. Cytunwyd bod y Cydgysylltydd Craffu yn ystyried y mater ac yn adrodd yn ôl. Nododd yr aelodau bwysigrwydd monitro cynlluniau o'r fath i sicrhau eu bod yn cael eu hymgymryd yn unol â'r fanyleb ofynnol, mewn amserlen briodol ac o fewn y gyllideb

- Ystyriwyd y cynnydd ar gyn-Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych, a hysbyswyd yr aelodau o'r sefyllfa ddiweddaraf. Amlygodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ddiffyg cyfathrebu ar y mater hwn a ysgogodd drafodaeth yn ystod yr hon y disgrifiodd yr aelodau gyfathrebu fel problem ledled yr awdurdod, gyda chynghorwyr ddim bob amser yn ymwybodol o'r materion a oedd yn effeithio eu wardiau hwy a'r gymuned ehangach. Cytunwyd cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ystyried sut gellid gwella dulliau cyfathrebu gyda chynghorwyr

- Gofynnwyd am esboniad ar y rhesymeg tu ôl i'r penderfyniad i adleoli Llyfrgell Prestatyn ac effaith y penderfyniad hwnnw ar ddefnyddwyr gwasanaeth a gwasanaethau llyfrgell eraill yn y sir. Dywedodd y Cynghorydd Gareth Sandilands bod Cyngor Tref Prestatyn wedi mynegi pryderon ynglŷn â pharcio ceir ac iechyd a diogelwch ac wedi awgrymu y dylid lleoli croesfan i gerddwyr ar y safle newydd, Rhoddodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau fwy o wybodaeth gefndir ar y cynllun, a oedd wedi ei ystyried fel yr opsiwn gorau i Brestatyn ac ar ôl cymryd yr holl ffactorau i ystyriaeth. Roedd maes parcio talu ac arddangos dros y ffordd o'r lleoliad newydd. Adroddodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts ar gamau i foderneiddio gwasanaethau llygfrgell y sir, gan sicrhau nad oedd unrhyw lyfrgell yn cael ei hesgeuluso a bod cynlluniau ariannu priodol yn cael eu sicrhau. Tanlinellodd y Cynghorydd Butterfield ddiffyg unedau cychwyn busnes ac awgrymodd y gellid defnyddio'r hen safle llyfrgell i'r diben hwnnw.

Eglurodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau hefyd faterion mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar amrywiol agweddau'r adroddiad. Atebodd gwestiynau ar feysydd gwasanaeth penodol a dywedodd bod y gwasanaethau

hynny a nodwyd fel rhai a oedd wedi medru cyflawni arbedion ar ôl her gwasanaeth wedi eu manylu yn Atodiad 2 i'r adroddiad. Roedd Castell Bodelwyddan ac ECTARC yn cael eu rhedeg gan Gwmnïau Hyd Braich (gyda chynrychiolwyr y cyngor ar fwrdd y ddau) ac y byddai'r grantiau a ddarparwyd gan yr awdurdod yn cael eu lleihau.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *cydnabod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf o ran cyflawni strategaeth gyllidebol a Chynllun Ariannol Tymor Canol y Cyngor;*

(b) *rhoi diweddariad ar gynnydd i ddelio â'r pwysau cyllidebol ar Ganolfan Integredig y Dderwen yn y Rhyl i gyfarfod nesaf y pwyllgor;*

(c) *bod y Cydgysylltydd Craffu yn holi ynglŷn â Phrosiect Adfywio Canol Tref y Rhyl ac yn adrodd yn ôl ar y mater, a*

(d) *cyfeirio pryderon yr aelodau ynglŷn â diffyg cyfathrebu cyson ac ymgysylltiad â chynghorwyr gan swyddogion i sicrhau eu bod yn gwybod am y materion yn y sir at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gyda golwg ar wella cyfathrebu.*

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor i'r dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol. Roedd amrywiol atodiadau ynghlwm wrth yr adroddiad a oedd angen sylw'r aelodau.

Adroddodd y Cydgysylltydd Craffu ar ddatblygu'r rhaglen waith ddrafft a thrafododd yr aelodau y newidiadau posibl iddi yn wyneb y materion i'w hystyried, er mwyn sicrhau baich gwaith y gellir ei reoli mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Ystyriwyd hefyd enwebiadau ar gyfer cynrychiolwyr craffu i wasanaethu ar y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol.

Ar ôl ystyried, cytunodd yr aelodau –

- Cadarnhau'r materion a restrwyd ar gyfer cyfarfod Medi
- Gohirio adroddiad Adolygu Materion Trwyddedu tan fis Tachwedd (gofynnodd yr Aelodau hefyd am esboniad ar y trefniadau cydweithredol gyda Chyngor Bwrdeistref Sir Conwy ar gyfer y gwasanaeth erbyn y cyfarfod nesaf)
- Cyfuno'r adroddiadau ar y Polisi Cwynion Corfforaethol a Pherfformiad Cwynion Eich Llais (Ch1) a drefnwyd ar gyfer mis Hydref
- Cyfeirio'r Cytundeb a'r Llyfryn Tenantiaeth Drafft a drefnwyd ar gyfer Tachwedd naill ai i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau neu Bartneriaethau yn dibynnu ar a oes unrhyw gysylltiad gyda chymdeithasau tai eraill (cytunodd y Cydgysylltydd Craffu adrodd yn ôl ar lefel y cydweithrediad, os oedd, gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar y gwaith hwn)

- Cadarnhau'r dyddiadau a awgrymwyd ar gyfer derbyn adroddiadau monitro ar y Cynllun Corfforaethol a Chwynion Eich Llais, a
- Cefnogi cyflwyniad adroddiadau monitro ariannol yn y dyfodol at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol fel y penderfynwyd gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

Cyfeiriodd y pwyllgor at yr Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Seiliedig ar Ffydd a oedd yn destun adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol a lleisio pryderon ynglŷn â'r straeon a oedd yn mynd o gwmpas ynglŷn â'r adolygiad. Teimlai'r aelodau bod angen hysbysu'r holl gynghorwyr o'r sefyllfa bresennol a gofynnwyd am gael dosbarthu datganiad sefyllfa.

Yn olaf, cyfeiriwyd at yr adroddiad gwybodaeth a gynhwyswyd ym mhapurau briffio'r pwyllgor ar Archwiliad Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion gan AGGCC a gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gyfeirio unrhyw gwestiynau neu sylwadau ato ef y tu allan i'r cyfarfod. Byddai unrhyw faterion a oedd angen sylw yn cael eu hychwanegu at raglen waith y pwyllgor.

***PENDERFYNWYD* –**

*(a)* *yn amodol ar y newidiadau a'r cytundebau a grybwyllwyd uchod, cymeradwyo blaenraglen waith y pwyllgor fel y manylwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad;*

*(b)* *rhoi esboniad ar y trefniadau cydweithredol ar gyfer Trwyddedu a gwasanaethau o fewn y Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio erbyn cyfarfod nesaf y pwyllgor;*

*(c)* *bod y Cydgysylltydd Craffu yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar lefel cydweithrediad, os oedd, gyda Landordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth lunio'r Cytundeb a'r Llawlyfr Tenantiaeth drafft;*

*(d)* *gofyn am ddatganiad sefyllfa ynglŷn â'r Adolygiad o Ddarpariaeth Addysg Seiliedig ar Ffydd (pwnc adroddiad Cabinet yn y dyfodol) i'w ddosbarthu i holl gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig addysg ar bwyllgorau craffu;*

*(e)* *penodi'r Cynghorydd Arwel Roberts yn gynrychiolydd y pwyllgor ar Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a'r Cynghorydd Richard Davies fel dirprwy, a*

*(f)* *phenodi'r Cadeirydd, y Cynghorydd Colin Hughes yn gynrychiolydd y pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol a'r Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams fel dirprwy.*

**7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth yn ddiweddar a mynegodd ei siom nad oedd arbedion wedi eu canfod yn ystod y cylch cyfarfodydd cyntaf. Pwysleisiodd bwysigrwydd cynrychiolwyr craffu yn mynychu yn ystod y cylch herio gwasanaeth nesaf ym mis Hydref/Tachwedd pan fyddai arbedion yn cael eu trafod ynghyd â sut y byddai gwasanaethau yn cael eu

cyflwyno. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Gwelliannau Corfforaethol y byddai gwahoddiadau i gyfarfodydd Herio Gwasanaeth ond yn cael eu hanfon at y cynghorwyr hynny yr oedd angen iddynt fod yn bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr adroddiad llafar gan y Cadeirydd ar ei bresenoldeb mewn cyfarfodydd Herio Gwasanaeth yn ddiweddar.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu.*

**8 MONITRO'R CYNLLUN CYFALAF**

[Datganodd y Cynghorydd Ian Armstrong fuddiant personol yn Natblygiad Harbwr Foryd gan ei fod yn Gadeirydd Fforwm yr Harbwr.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn rhoi diweddariad ar sefyllfa alldro'r Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2011/12 a'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer 2013/14 a 2014/15. Roedd y prosiectau hynny a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2012 hefyd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Hysbysodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau y cyfarfod o'r sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â phrosiectau mawrion, prynu/dymchwel eiddo a'r rhaglen gwaith priffyrdd a gynhwyswyd yn y cynllun cyfalaf, gan esbonio materion mewn ymateb i gwestiynau ar brosiectau ac amserlenni penodol, gan gynnwys y ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer datblygiad Canolfan Hamdden Rhuthun.

Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau hefyd –

- Pryderon o ddifrif ynglŷn â'r oedi wrth ddymchwel yr Honey Club yn y Rhyl yn wyneb cyflwr yr adeilad ac ofnau ynglŷn â diogelwch, a'r angen i symud ymlaen gydag ailddabtlygiad y safle cyn gynted ag y bo modd
- Esbonio agweddau penodol Prosiect Tai Gorllewin y Rhyl ynghyd â sicrhad o ran cyflawni'r prosiect o fewn amserlen resymol
- Yr angen i gynnwys amserlen ar gyfer prosiectau mawrion i gynorthwyo gyda monitro cynnydd a chyflawniad prosiectau unigol.

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau i faterion a godwyd gan yr aelodau fel a ganlyn -

- Cadarnhaodd, unwaith y byddai caniatâd wedi ei roddi, y byddai gwaith dymchwel yr Honey Club yn cychwyn. Os oedd angen hynny am resymau iechyd a diogelwch byddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel cyn hynny. Roedd y cyngor a'r datblygwr yn awdyddus i symud ymlaen gyda'r ailddatblygiad cyn gynted ag y bo modd

- Ymhelaethodd ar y cynigion ar gyfer Prosiect Tai Gorllewin y Rhyl gan ddweud y byddai adroddiad manwl yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn yr hydref. Ychwanegodd y Cydgysylltydd Craffu y byddai gwahoddiad agored i'r holl aelodau craffu i fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Cymunedau, wedi ei drefnu ar gyfer 13 Medi yn y Rhyl i drafod Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, a fyddai'n cynnwys taith o amgylch safleoedd strategol allweddol
- Cyfeiriodd at anhawster cael amserlenni ystyrlon ar gyfer rhai prosiectau lle'r oedd elfennau amrywiol yn dibynnu ar ddylanwadau allanol ac nid o fewn rheolaeth y Cyngor.

Trafododd yr aelodau hefyd brosiect gwaith hyblyg WORKsmart a goblygiadau blaengareddau penodol gan gynnwys diffyg lle parcio, a oedd wedi achosi llawer o ddadl a phryder. Tanlinellwyd hefyd yr angen i sicrhau bod yr awdurdod yn dangos gwerth am arian trwy flaengareddau WORKsmart. Adroddodd y Cynghorydd Joan Butterfield ar fanteision gwaith SMART a gyflwynwyd yng Nghyngor Tref y Rhyl ac a oedd yn gweithio'n dda.

***PENDERFYNWYD* –**

*(a) cydnabod y sefyllfa alldro ar y Cynllun Cyfalaf ar gyfer 2011/12 a'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer cyfnod 2012/13 i 2014/15, a*

*(b) gofyn i'r Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau gyflwyno pryderon yr aelodau mewn perthynas â diogelwch adeilad yr Honey Club a'r angen i ddatrys y mater cyn gynted ag y bo modd.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Eitem Agenda:**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6ed Medi 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd 14-19** |
| **Teitl:** | **Trawsnewid Addysg Ôl 16** |

---

**1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?**

1.1 Diweddariad yw'r adroddiad ar y cynnydd wrth Drawsnewid Addysg Ôl 16 yn Sir Ddinbych, yn canolbwyntio'n arbennig ar Bartneriaeth Dyffryn Clwyd ar ôl ei chylch weithredu lawn gyntaf. Mae'r cynnydd yn 6ed Prestatyn/Y Rhyl a Dyffryn Dyfrdwy i'w gael yn Atodiad 3.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1 Rhoi gwybod i'r pwyllgor am effaith hyn ar ysgolion a phobl ifanc yn Sir Ddinbych o ran gwerth yr arian a chanlyniadau addysgol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1 Bod yr Aelodau'n adolygu'r canlyniadau hyd yma ac yn asesu costau, manteision, gwerth yr arian a risgiau'r Partneriaethau Trawsnewid.

**4. Manylion yr adroddiad**

4.1 Mae effaith y Partneriaethau, y cynnig gwell o gyrsiau blaengar priodol ar Lefel 3 ym mhob un o'n hysgolion, a pherfformiad cyffredinol disgyblion Sir Ddinbych o ran cyflawni'r Trothwy Lefel 2 a Throthwy Lefel 2 gyda Chymraeg neu Saesneg gyda Mathemateg wedi bod yn amlwg. Cododd cyfradd cyfranogiad Sir Ddinbych (y % o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n parhau yn y Chweched Dosbarth neu mewn Coleg AB) i 89.9% ac roedd yn ail i Fynwy yn unig (o 0.5%) yng Nghymru.

- **Partneriaeth Ôl 16 Dyffryn Clwyd**

Rydym bellach wedi cyrraedd diwedd cylch llawn cyntaf y cynnig cydweithredol gyda'r set gyntaf o ganlyniadau Lefel 3 (lefel Uwch yn bennaf).

Cafodd y rheini a gwblhaodd Blwyddyn 13 eleni gynnig 58 cwrs Lefel 3 (safon UG/Uwch) sy'n cynnwys 22 o opsiynau galwedigaethol a chymhwysol gan roi i ddysgwyr Dyffryn Clwyd amrediad mor eang o gyrsiau ag unrhyw le yn y wlad. Fe wnaeth y gyfradd aros-ymlaen (y % ganran o flwyddyn 11 yn parhau i'r Chweched Dosbarth) ar draws pedair ysgol Dyffryn Clwyd godi o 56.8% yn

2009 i 60.8% yn 2010 a 63.2% yn 2011.

Cyflawnodd 96.2% o'r myfyrwyr yn y Bartneriaeth y Trothwy Lefel 3, sy'n 2 bas o leiaf; roedd 97.9% o raddau yn basys A* i E; 78.2% yn A* i C. Mae'n dda iawn gweld bod myfyrwyr sy'n gwneud cyrsiau mewn ysgol heblaw eu hysgol eu hunain wedi cyflawni, ar gyfartaledd, o leiaf mor uchel ag mewn pynciau yn eu hysgol nhw'u hunain; tua chwarter gradd ar gyfartaledd - gweler Atodiad 4.

Mae'r Pwyllgor Cydlywodraethu, y corff cyfrifol dros gytuno'r cwricwlwm ardal leol, wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod patrwm y cwricwlwm, derbyniad opsiynau ac i fonitro cynnydd. Maen nhw wedi trafod materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hefyd.

Mae'r Tîm 14-19 yn cefnogi'r Cydbwyllgor ynghyd â Grŵp Gweithredol Dyffryn Clwyd, sy'n delio â logisteg a materion eraill o'r fath. Fe wnaeth y tîm reoli'r peirianwaith taliadau rhwng partneriaid ar ran yr ysgolion a'r colegau, a gwnaed taliadau mewn pryd ym mis Mawrth 2012 fel y cynlluniwyd. Bydd hyn yn galluogi'r Cydbwyllgor i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd a gwerth yr arian ochr yn ochr â'r cynnig cwricwlwm.

- cynigiodd pob un o'r ysgolion a'r colegau yn Nyffryn Clwyd gwricwlwm sy'n rhagori ar delerau'r Mesur Dysgu a Sgiliau eto yn 2011
- fe wnaeth 258* o fyfyrwyr gyrsiau gyda darparwyr dysgu heblaw eu hysgolion sefydlog eu hunain (* ar Fawrth 15$^{fed}$ 2012)

Mae'r tabl* isod yn crynhoi cyfranogiad myfyrwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn y bartneriaeth

| | i | I | i | i | i | i |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Brynhyfryd | Dinbych | Y Santes Ffraid | Glan Clwyd | Coleg Glannau Dyfrdwy, Llysfasi | Coleg Llandrillo, Dinbych |
| myfyrwyr o ganolfannau eraill | 66 | 41 | 87 | 5 | 25 | 34 |

| | Ysgolion sefydlog | o | o | o |
|---|---|---|---|---|
| | Brynhyfryd | Y. U. Dinbych | Y Santes Ffraid | Glan Clwyd |
| myfyrwyr yn mynd at ddarparwyr eraill | 56 | 115 | 61 | 26 |

Talodd yr ysgolion am y ddarpariaeth hon gyda darparwyr dysgu eraill o'u cyllidebau sylfaenol; fe wnaethant dderbyn £175k i'w cyllidebau craidd ar gyfer y cyrsiau yr oeddynt yn cael atynt yn rhywle arall, a thalu ychydig dan £140k allan (maen nhw'n cadw 20% fel y cytunwyd ym Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Bartneriaeth).

**Costau a Manteision Gweithio mewn Partneriaeth**
**COSTAU**

(i) Darpariaeth

| Cost y ddarpariaeth ar draws yr holl ysgolion sy'n bartneriaid 2012 (o Dablau A – D yn Atodiad 1) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2009--2010 | 2011-2012 | Newid | % |
| Nifer o fyfyrwyr yn y Chweched Dosbarth | 545 | 619 | 74 | 13.6% |
| Cyfartaledd Costau Athrawon (gydag argostau) | £46.24k | £46.8k | £0.6k | 1.3% |
| Cyfanswm Cost darparu cyrsiau Lefel 3 yn y Chweched Dosbarth | £1.722m | £1.714m | (£8.3k) | - 0.50% |
| Cost y dysgwr | £3.6k | £2.77k | (£0.39k) | - 12.4% |

Mae'r cyfartaledd cost y dysgwr am y ddarpariaeth ar draws yr ysgolion yn y Bartneriaeth wedi'i leihau o dros 12% o ganlyniad i weithio cydweithredol, er bod cynnydd bach yng nghyfartaledd cost yr athrawon. Er hyn, mae'r cynnydd o 14% yn niferoedd myfyrwyr a'r ehangu arwyddocaol ar y pynciau ar gynnig (o 27 cwrs ar gyfartaledd), mae cost gyffredinol y ddarpariaeth wedi'i lleihau hefyd.

Ar hyn o bryd, mae dwy o ysgolion Dyffryn Clwyd yn gwario'r cyfan o'u cyllidebau ôl 16 ar staffio eu dosbarthiadau Chweched Dosbarth; mae gan ddwy ychydig o arian dros ben i glirio rhai gorbenion a chostau cynnal cyrsiau Chweched Dosbarth. Nid oes gan yr ysgolion yn y bartneriaeth y gallu i hunangyllido'r costau a nodwyd yn (ii) a (iii) isod.

Mae ysgolion yn talu am y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ôl 16 yma trwy'u cyllid craidd eu hunain. Serch hynny mae peth o'r ddarpariaeth yn ddibynnol ar gyllid grant megis amrywiol gyrsiau Cyfrwng Cymraeg megis Peirianneg a Sbaeneg sy'n cael eu cyllido'n gyfan gwbl o grant blynyddol Llwybrau Dysgu 14-19.

(ii) Cludiant

Mae tri bws i bob cyfeiriad bellach yn cymryd yr holl fyfyrwyr blwyddyn 12 a 13 sy'n ymhel â'r bartneriaeth, gyda bws gyntaf pob dydd yn un a fyddai'n dychwelyd i'r Gogledd neu'r De i'w chanolfan beth bynnag. Er bod hyn wedi arwain at arbedion amser ac at arbedion ariannol, mae'r costau'n sylweddol ac yn cael eu cwrdd ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith 14-19 trwy Grant Llwybrau Dysgu Cynllun Datblygu'r Rhwydwaith Rhanbarthol.
Costau Cludiant yn 2011-2012 £84.5k

(iii) Cymorth i'r Bartneriaeth

Mae hyn yn cynnwys systemau a thrwyddedau TG ar gyfer olrhain presenoldeb a chynnydd, cefnogi dysgwyr unigol ar lwybrau, cynllunio a

chynhyrchu prosbectws a marchnata ar y cyd.
Costau cymorth y Bartneriaeth 2011-2012: £44.5k

Caiff y costau hyn eu cwrdd yn llawn o'r Grant Llwybrau Dysgu 14-19 hefyd

**Manteision** – amlinellir y rhain yn Atodiad 2

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Cefnogi codi a chynnal lefelau cyrhaeddiad, cyflawniad ac ymgysylltiad sy'n cyfrannu at y flaenoriaeth o Foderneiddio Addysg.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae system gyllido gynaliadwy wedi'i sefydlu ym Mhartneriaethau Dyffryn Clwyd a PR6 sy'n cwrdd â'r rhan fwyaf o ddarpariaeth y cyrsiau

6.2 Mae rhai cyrsiau Cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyllido'n gyfan gwbl o'r Grant 14-19 (sy'n £30,000 ar hyn o bryd)

6.3 Costau cludiant a chymorth y bartneriaeth:
Dyffryn Clwyd £107,322 (amcanol 2012-2013)
6ed Prestatyn a'r Rhyl £69,300 (amcanol 2012-2013)
Mae'r rhain yn cael eu cwrdd ar hyn o bryd gan y Rhwydwaith 14-19 trwy'r Grant Llwybrau Dysgu.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

7.1 Mae pob ysgol a choleg wedi bod â rhan lawn er mis Mawrth 2009 a datblygiad yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer Trawsnewid. Mae Pwyllgorau Cydlywodraethu'n adrodd i Fwrdd Partneriaeth Dysgu Sir Ddinbych

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

8.1 Nid oes gan ysgolion yr adnoddau i gyllido cludiant a chostau cymorth y bartneriaeth o gyllid craidd.

8.2 Mae'r Gweinidog, hyd yma, wedi gwarantu cyllid grant 14-19 tan Fawrth 31ain 2014 yn unig

**9. Grym i wneud y Penderfyniad**

Ni ofynnwyd am yr un penderfyniad.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd 14-19
Ffôn: 01824 708032

**Appendix 1 Performance Scrutiny Report 6th September 2012**

## DYFFRYN CLWYD PARTNERSHIP
## ANALYSIS OF TOTAL COSTS & BENEFITS OF YEAR 12 PROVISION

**Table A: DYFFRYN CLWYD SCHOOLS - before partnership**

| School | | | | | | 2009 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Number of students** | **ATC** | **no of classes** | **ttp** | **ttc** | **NTE** | **c** | **FTE** | **TC** |
| **Denbigh HS** | | £ 47,657.00 | 35 | 140 | 25 | 5.6 | 0.8 | 7 | £ 333,599.00 |
| | 129 | | | | | | | | |
| **Brynhyfryd** | | £ 46,925.00 | 56 | 280 | 25 | 11.2 | 0.8 | 14 | £ 656,950.00 |
| | 205 | | | | | | | | |
| **Glan Clwyd** | | £ 46,200.00 | 45 | 225 | 25 | 9 | 0.8 | 11.25 | £ 519,750.00 |
| | 149 | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **St Brigids** | | £ 44,182.00 | 24 | 96 | 25 | 3.84 | 0.8 | 4.8 | £ 212,073.60 |
| | 62 | | | | | | | | |
| | | | | | | | | 37.05 | |
| | **545** | | | | | | | | **£ 1,722,372.60** |
| | | £ 46,241.00 | average | | | | | **Cost per learner** | **£ 3,160.32** |

| **KEY** | Year 12 & 13 | ATC | | ttp | ttc | NTE | c | FTE | TC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Average Teacher Cost inc on-costs | | total teacher periods allocated to Year 12 on L3 courses | total lessons in the timetable cycle per week | notional teacher equivalence - number of teachers need to deliver ttp | staff contact ratio. Proportion of time spent teaching | Full Time Equivalence = NTE /c to allow for non contact time | Total staffing cost of delivering Year 12 classes at the base school |

**Table B: DYFFRYN CLWYD SCHOOLS - after partnership (Year 12 & 13)**

| Base School | | | | | | 2011-2012 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Number of students | ATC | no of classes | ttp | ttc | NTE | c | FTE | TC |
| Denbigh HS | 129 | £ 48,189.00 | 32 | 144.0 | 25 | 5.8 | 0.8 | 7.20 | £ 346,960.80 |
| | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | 242 | £ 47,877.00 | 56 | 252.0 | 25 | 10.1 | 0.8 | 12.60 | £ 603,250.20 |
| | | | | | | | | | |
| Glan Clwyd | 160 | £ 46,516.00 | 49 | 220.5 | 25 | 8.8 | 0.8 | 11.03 | £ 512,838.90 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| St Brigids | 88 | £ 44,635.00 | 25 | 112.5 | 25 | 4.5 | 0.8 | 5.63 | £ 251,071.88 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | 619 | £ 46,804.25 | | | | | | 36.45 | £ 1,714,121.78 |
| | | average | | | | | | **Cost per learner** | **£ 2,769.18** |

**Table C: ADDED BENEFIT OF PARTNERSHIP WORKING TO INDIVIDUAL SCHOOLS**. This analysis takes into account the number of extra classes

| Base School | | | no of extra classes accessed (actual) | ttp | ttc | NTE | c | FTE | Notional Added Benefit |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Denbigh HS | | | 42 | 189 | 25 | 7.56 | 0.8 | 9.45 | £ 455,386.05 |
| | | | | | | | | | |
| Brynhyfryd | | | 26 | 117 | 25 | 4.68 | 0.8 | 5.85 | £ 280,080.45 |
| | | | | | | | | | |
| Glan Clwyd | | | 14 | 63 | 25 | 2.52 | 0.8 | 3.15 | £ 146,525.40 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| St Brigids | | | 26 | 117 | 25 | 4.68 | 0.8 | 5.85 | £ 261,114.75 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | **£ 1,143,106.65** |

Table D:

Changes from the 2009 Base Year

| Saving | Overall saving | % Saving | increase in participation | increase in participation % | cost reduction per student | cost reduction per student % | | 2011 extra subjects accessed by students | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Denbigh HS | | | | | | | | 42 | |
| Brynhyfryd | | | | | | | | 26 | |
| Glan Clwyd | | | | | | | | 14 | |
| St Brigids | | | | | | | | 26 | |
| 2011 | £ 8,250.82 | 0.48% | 74 | 13.58% | £ 391.14 | 12.38% | | 27 | average |

**Appendix 2**
**September 6th 2012 Performance Scrutiny Committee**

**BENEFITS**
Wider choice, increased participation and learner engagement and improved levels of attainment are all positive benefits of partnership working, but difficult to evaluate.
Increased levels of participation at 16 do lead to an increase in the number of young people attaining level 3 qualifications and the potential to undertake degree level study or apprenticeships.

(i) The cost to society of a young person becoming NEET has been quantified however and at 16 is £56,300* per person. The total lifetime cost of the NEET cohort in Denbighshire has fallen from £3,434,300 in 2009 to £2,815,000 in 2011; a fall of £619,300. This 'saving' to the public purse is equivalent to the annual Learning Pathways 14-19 budget for Denbighshire. Please note that these are county wide figures, and not just Dyffryn Clwyd.

( *Source: Coles, B. et al. (2010) Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training Research Undertaken for the Audit Commission. York University)

**Notional saving by reducing NEET £619,000**

**(ii) Putting a value on wider choice**

Putting a monetary value on increased participation and wider choice is complex and impracticable and at best can be an estimate. This analysis in Table C simply looks at the number of extra classes that students from the schools actually accessed with other providers during 2011-2012 – the average for all schools was 27. The notional added benefit is based upon what it would have cost the school to put the courses on themselves. It is a notional figure because our schools would not be in a position to offer these courses either wholly or in part.

**Notional Added Benefit of Partnership working £1,143,107**

**Background Papers**

Transforming Education and Training Provision in Wales – Delivering the Skills that Work for Wales
http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/deliveringskillsworkforwales/transformingprovisionwalese.pdf?lang=en

Collaborative Arrangements between FE Institutions and Schools 2009
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance

The Learning & Skills Measure (Wales) 2009
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2009/1/contents

Transforming Post 16 Education and Training in Denbighshire;

Strategic Outline Case March 2011

Review of Qualifications in Wales
http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/120530roqen.pdf

Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training

http://www.york.ac.uk/spsw/research/neet/

**Appendix 3**
**September 6th 2012, Performance Scrutiny Committee**

- **Prestatyn & Rhyl Post 16 Partnership (PR6)**

Excellent progress has continued in North Denbighshire with the implementation of formal collaboration between Prestatyn High School and Coleg Llandrillo Cymru, Rhyl Sixth, and the first Year 12 started in September 2011.
The local area curriculum for north Denbighshire was published as 'PR6' – Prestatyn and Rhyl Sixth Joint Prospectus. The subject offer for 2011 made in February 2011 comprised 57 level 3 choices that included 19 vocational options, and this has formed the curriculum for the current Year 12.

The Joint Governance Committee, the responsible body for agreeing the local area curriculum, has met regularly to discuss the curriculum pattern, take up of options and to monitor progress. The Joint Committee has also discussed sustainability, and the issue of grant dependence.

The 14-19 Team continues to support both the Joint Committee and the PR6 Management Group that deals with logistics and other such matters. The team managed the inter – partner payments mechanism as it does for Dyffryn Clwyd, and payments were completed in April 2012. The Joint Committee will address the issues of sustainability and value for money alongside the curriculum offer.

- both Prestatyn HS and Rhyl Sixth offered a curriculum that exceeds the terms of the Learning and Skills Measure in 2011 and 269 * students have taken up the offer (* as at 12th September 2011)

- 73 students are now accessing courses with learner providers other than their own base school or college

The table below is a summary of student movements

| | to | to |
|---|---|---|
| | Prestatyn High School | Rhyl Sixth |
| students from other bases | 34 | 39 |

Again, 14-19 Learning Pathways pays in full for the provision of transport to support the joint timetable, and again, there were some early teething problems. This will improve in September 2012 with the full operation of the Year 12 and Year 13 partnership and the provision of buses rather than minibuses, and the issue of bus passes for travelling students. 14-19 also

pays for partnership support such as for the production of the joint prospectus and marketing.

- **the Dee Valley**

The 14-19 Coordinator reported in September 2011 that progress in the transformation plans for the Dee Valley has been limited with the outcome of the Wrexham Strategic Case for Transformation in that area still undecided. Formal collaborative structures to support the establishment of the partnership between Ysgol Dinas Brân and partners in Wrexham CBC are still to be developed, although good partnership working between Ysgol Dinas Brân, Deeside College and North Wales Training has taken place to the benefit of learners. It is envisaged that the proposed merger of Yale College with Deeside College will be very much to the benefit of learners in the Dee Valley and at Dinas Brân in particular.

The local area curriculum for the Dee Valley comprised the curriculum offer for Ysgol Dinas Brân Sixth Form and also options that are part of the Dyffryn Clwyd offer (Options A and D). This enabled Dee Valley learners to have the choice of being able to access an enhanced Welsh Medium provision at Ysgol Brynhyfryd and Deeside College, Llysfasi, as well as courses through the medium of English. Through this arrangement the subject offer for 2011 made in February 2011 comprised 36 level 3 choices that included 9 vocational choices, although there was no take up in September 2011.

**Appendix 4**
**September 6th 2012 Performance Scrutiny Committee**
**Dyffryn Clwyd Partnership**

Please note that each school and college publish their own results, and these have been combined here to reflect the full student cohort in the Partnership

## Year 13 Examination Results 2012

| | |
|---|---|
| Number of pupils in cohort | 247 |

| | |
|---|---|
| Number of pupils entered for 2 or more A levels or equivalent | 235 |

### Level 3 Threshold

| | Number of pupils | % of cohort |
|---|---|---|
| Achieved the Level 3 threshold | 226 | 96.2% |

### A Level Grades

| Grades | A* | A | B | C | D | E | U | X |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Number achieving (All boards) | 35 | 85 | 166 | 156 | 72 | 39 | 12 | 0 |

| | | Number | % |
|---|---|---|---|
| Overall pass rate A* - C | | 442 | 78.2%* |
| Overall pass rate A* - E | | 553 | 97.9%** |

* Wales 75%, UK 76.6%
** Wales 97.6%,UK 98%

### Vocational Subjects

| | Distinction | Merit | Pass | Other |
|---|---|---|---|---|
| Number achieving (All boards) | 36 | 7 | 14 | |

### Welsh Baccalaureate

| | Number participating | Number passed |
|---|---|---|
| Advanced | 171 | 165 |
| | | |

**Comparing the performance of students when they travel to other schools or colleges for some of their education.**

The results of all 270 students in the Sixth Forms of the partners schools entered at Level 3 (A level) were analysed by calculating their overall points score for their Level 3 subjects, calculating the average score for each student, and then comparing this with the score they achieved when they accessed their learning elsewhere by calculating a residual score.

The scores used were standard scores such as A* = 300, A = 270, B = 240, C = 210, D = 180 and E = 150. So a student who achieved an A, B and a C scored a total of 720, making an average of 240. If she achieved her A grade at a school or college other than at her own school, her residual would be 270 – 240 = 30. Had she achieved her C grade (and not the A) elsewhere, her residual would have been 210 – 240 = - 30. This can then be done for all students, and an average residual calculated. If this is positive, it suggests that students do at least as well when studying at another centre as they do at their base school; if it is negative, they are achieving less well.

The overall residual for this year's cohort was positive, indicating that the standards being achieved when students attend courses outside of their own school are, on average, higher than their overall level of attainment. 56 students accessed at least one course elsewhere with a total residual of 437, and an average residual of 7.8. 7.8 points is just over a quarter of a grade.

It would be naive to generalise on just one set of results, but it would seem that the positive aspects of partnership working have more than offset the negatives for this cohort of young people. Wider choice of both subjects and combinations of subjects, meeting and working with other students, teachers and lecturers, and the subsequent motivation and engagement of students appear to have outweighed the risks of partnership working that include extra travelling time and the lack of familiarity with other settings.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad I'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Medi 2012** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Monitro Sefyllfa Ariannol Ysgolion** |

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sicrhad i'r Pwyllgor ar y gweithdrefnau sydd yn eu lle o fewn Cyllid Addysg ac ysgolion i reoli eu sefyllfa ariannol i'w hatal rhag mynd i anhawster ariannol neu i glustnodi a gweithredu'n ddi-oed os yw problemau ariannol yn dod i ran ysgol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad hwn mewn ymateb i gais y Pwyllgor mewn cyfarfod blaenorol. Gofynnodd y Pwyllgor am adolygiad ac adroddiad ar sut mae Cyllid Addysg yn monitro sefyllfaoedd ariannol ysgolion i sicrhau eu bod yn rheoli eu cyllidebau'n effeithiol ac i nodi unrhyw ysgol sydd mewn anhawster ariannol yn gynnar i ganiatáu i'r broblem gael ei chlustnodi ac i ysgolion ddatblygu a gweithredu cynlluniau adfer cadarn ble mae angen.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau'n derbyn sicrhad Pennaeth Archwilio Mewnol fod gweithdrefnau cadarn yn eu lle a bod unrhyw welliannau sydd eu hangen yn cael eu gweithredu.

## 4. Manylion yr adroddiad

*Fe wnaeth trosolwg Archwilio Mewnol o'r prosesau sydd yn eu lle ganfod y bu gwelliant arwyddocaol wrth fonitro perfformiad ariannol ysgolion a bod gwaith rhagweithiol ar fynd i wella'r gwasanaeth ymhellach a delio gydag unrhyw feysydd gwella a glustnodir yn ystod y cyfnod pontio.*

Y canlyniadau allweddol o'n hadolygiad yw:

- Mae'r system Cynllunio Cydweithredol newydd yn darparu data cyfredol, er bod gwaith ar fynd i wella rhagweld ac i ddatblygu rhagweld cyllidebau 3 blynedd, sy'n cael ei wneud ar wahân ar hyn o bryd oherwydd newidiadau sydd ar fin digwydd i ymarferoldeb y system.
- Mae penodi Rheolwyr Cyllid Ysgolion sydd wedi'u cyflogi'n uniongyrchol o fewn clystyrau wedi gwella cyfathrebu, gan ganiatáu i Gyllid Addysg gael gwybod am broblemau'n fwy prydlon. Mae hefyd yn cyflenwi ysgolion â chymorth a hyfforddiant â mwy o ffocws ac wedi'i dargedu'n well a mwy o allu i brofi'r farchnad i sicrhau gwerth yr arian a chlustnodi cyllid allanol.

- Mae newidiadau i broses y gyllideb a chynigion ar gyfer fformiwla cyllido newydd yn cyflenwi ysgolion â chyllideb fwy realistig ac yn helpu i gynllunio'r gyllideb. Mae prosesau cynllunio ariannol newydd yn annog ysgolion i fod yn fwy cyfrannog ym mhrosesau rheoli'r gyllideb ac maent yn hyrwyddo mwy o gefnogaeth gan ysgolion. Mae gwaith a wnaed ac a gynllunnir yn y maes hwn yn lleihau'r perygl i ysgolion ddewis dod yn ysgolion llyfr siec ac mae wedi gweld ysgol arall yn symud yn ôl at yr awdurdod lleol ar ôl bod yn ysgol llyfr siec yn flaenorol.
- Mae'r tîm Cyllid Addysg yn cynhyrchu adroddiad gweddillau ysgolion misol sy'n darparu'r ffigurau alldro a ragwelir ar gyfer pob ysgol, yn cynnwys yr amrywiant a ragwelir, amrywiant y mis blaenorol a ragwelir a symudiad ar yr amrywiant.
- Defnyddir meini prawf 'RAG' (Red, Amber, Green) i gategoreiddio sefyllfa ariannol ysgolion ac yna i gategoreiddio'r rheini mewn anhawster ariannol. Mae dwy ysgol wedi'u categoreiddio'n Goch ar hyn o bryd, ond mae'r ddwy ysgol wedi cyflawni'r camau a nodwyd yn eu cynlluniau adfer a byddant wedi clirio'r diffyg hanesyddol o fewn 2 flynedd.
- Adroddir am berfformiad i'r Prif Gyfrifydd ac uwch reolwyr Addysg (yn cynnwys yr aelod Arweiniol dros Addysg) i adael iddynt wybod beth sy'n digwydd o ran unrhyw broblemau a phroblemau posibl i ganiatáu ymyrraeth ble mae angen.
